

Rhif: WG38352



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – Crynodeb o'r ymatebion

CANLLAWIAU DRAFFT AR ADDYSG CYDBERTHYNAS A RHYWIOLDEB 2019

ISBN 978-1-83876-648-1

| | |
|----------------------------------|---|
| Cynulleidfa | Penaethiaid, cyrff llywodraethu, cydgysylltwyr addysg bersonol a chymdeithasol ac athrawon addysg cydberthynas a rhywioldeb ym mhob ysgol a gynhelir. Byrddau iechyd, nyrsys ysgol, nyrsys plant sy'n derbyn gofal, nyrsys iechyd rhywiol a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio mewn ysgolion. Cydgysylltwyr addysg plant sy'n derbyn gofal sy'n gyfrifol am iechyd ac addysg plant sy'n derbyn gofal. Cydgysylltwyr Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru, Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, awdurdodau lleol a chydgyssylltwyr/darparwyr rhaglenni hyfforddi addysg rhyw a pherthnasoedd. |
| Trosolwg | Crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y canllawiau drafft ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb 2018. |
| Camau gweithredu gofynnol | Mae'n rhaid i ysgolion ystyried y canllawiau pan fyddant yn rhoi eu polisi addysg rhyw a'u darpariaeth addysg cydberthynas a rhywioldeb ar waith. |
| Rhagor o wybodaeth | Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at: Is-adran y Cwricwlwm Cangen y Celfyddydau, Dyniaethau a Llesiant Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ e-bost: RSEGuidance@llyw.cymru |
| Copïau ychwanegol | Gellir dod o hyd i'r ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn https://llyw.cymru/ymgyngoriadau |

Cynnwys

| | |
|----------------------------------|----|
| 1. Cyflwyniad | 4 |
| 2. Crynodeb | 4 |
| 3. Ymatebion | 4 |
| 4. Cwestiynau a themâu | 5 |
| 5. Atodiad: Rhestr o'r ymatebwyr | 22 |

1. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn cyflwyno canfyddiadau allweddol y dadansoddiad, gan nodi'r negeseuon a'r themâu allweddol a gyflwynwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y ddogfen 'Canllawiau Drafft ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb 2018'.

2. Crynodeb

Roedd Gweinidogion Cymru yn ceisio barn ar y ddogfen 'Canllawiau Drafft ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb 2018'.

Nod y canllawiau hyn yw rhoi cymorth ymarferol i athrawon a staff ysgolion er mwyn adeiladu darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o safon uchel fel rhan o "dull gweithredu ysgol gyfan".

Llywiwyd y cyngor yn y canllawiau drafft gan y dystiolaeth a gasglwyd gan y Panel o Arbenigwyr Addysg a Pherthnasoedd ac Estyn yn eu hadolygiad thematig o addysg perthnasoedd iach.

3. Ymatebion

Cafwyd **275** o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn:

- Cyflwynwyd **122** drwy'r ymgynghoriad ar-lein
- Cyflwynwyd **116** drwy e-bost

Yn ogystal, cafwyd **37** o ymatebion drwy ymgyrch a drefnwyd gan y Dyneiddwyr.

Nodwyd bod **46** o ymatebion wedi'u cyflwyno gan sefydliadau a chyrrff cynrychioliadol a chafwyd nifer o ymatebion gan ysgolion a rhieni unigol. Mae'n bosibl bod sefydliadau, cyrrff cynrychioliadol neu ysgolion eraill hefyd wedi ymateb ond gwnaethant ddewis aros yn ddiennw.

Mae'n bwysig nodi nad atebodd pob ymatebydd bob cwestiwn. Roedd nifer yr ymatebion ie/nage/ddim yn gwybod a'r sylwadau ysgrifenedig yn amrywio'n sylweddol rhwng cwestiynau. Cyflwynir nifer yr ymatebion i bob cwestiwn mewn adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

4. Cwestiynau a Themâu

Cwestiwn 1

Rydym wedi newid enw Addysg Rhyw a Pherthnasoedd i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. A yw'r cyflwyniad yn y canllawiau newydd yn egluro'n llawn cwmpas a chyd-destun Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb?

| Ymateb | Canran (rhif) |
|-------------------------|---------------|
| Ydy | 43 |
| Nac ydy | 42 |
| Ddim yn siŵr | 17 |
| Cyfanswm | 102 |
| Nifer y sylwadau ategol | 65 |

Cafodd y newid o Addysg Rhyw a Pherthnasoedd i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ei groesawu'n eang. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn gefnogol i argymhellion y panel o arbenigwyr, a datblygiad dull gweithredu ysgol gyfan yn seiliedig ar hawliau o adeiladu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o safon uchel.

"Rydym yn croesawu'r newid o 'ryw' i 'rywioldeb' yn y canllawiau hyn. Cefnogir hwn gan asiantaethau sy'n arbenigo mewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, Sefydliad Iechyd y Byd ac UNESCO."

"... rydym yn croesawu'r ffaith y bydd y newidiadau arfaethedig i'r cwricwlwm yn sicrhau bod addysg yn gwbl gynhwysol o ddysgwyr LGBTQ+, ac yn cynnwys materion ehangach megis cam-drin domestig, cydsynio, a phwysigrwydd parchu amrywiaeth."

Dywedodd nifer o ymatebwyr fod y canllawiau'n glir ac yn gryno heb fod yn rhy gyfyngol. Roedd yr ymatebion yn amlygu ei bod yn bwysig bod dysgwyr yn meithrin perthnasoedd iach, ac roeddent yn gefnogol i'r bwriad yn y canllawiau i ymgorffori'r cwmpas a'r cyd-destun yn llawn.

"Rydym yn cytuno â newid yr enw, a fydd yn adlewyrchu cyd-destun y pwnc yn well, gyda phwyslais priodol ar wybodaeth, dealltwriaeth a chefnogaeth er mwyn galluogi dysgwyr i feithrin perthnasoedd iach a chadarnhaol."

Awgrymodd yr ymatebwyr y dylid cryfhau'r cyflwyniad, ac y dylai gynnwys naratif a rhesymeg glir dros yr Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb newydd. Argymhellwyd y dylid ystyried defnyddio'r esboniad llawn o gwmpas a chyd-destun Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a roddwyd yn y panel o arbenigwyr ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd.

"Hefyd, nid yw'r cyflwyniad yn cyfeirio o gwbl at gyd-destun diwygiadau addysgol yng Nghymru. Dylid eu gosod yng nghyd-destun Pedwar Diben a chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) y cwricwlwm newydd o leiaf. Byddai hefyd yn ddefnyddiol i

ysgolion gael gweld sut y gellir integreiddio Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn dulliau gweithredu ysgol gyfan o ymdrin â lles emosiynol ac iechyd meddwl."

Tynnodd nifer o'r ymatebwyr sylw at y ffaith nad oes diffiniad clir na chyson o 'ryw' na 'rhywioldeb' yn y canllawiau, ac argymhellwyd y dylid cynnwys diffiniad gweithredol Sefydliad Iechyd y Byd o rywioldeb. Awgrymodd ymatebwyr hefyd y byddai datblygu astudiaethau achos yn helpu i ymchwilio i'r diffiniad hwn fel rhan o gyd-destun yr Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb newydd.

"Defnyddiodd y Panel o Arbenigwyr ddiffiniad gweithredol Sefydliad Iechyd y Byd o rywioldeb. Byddem yn cefnogi hwn fel diffiniad o 'rywioldeb' ar gyfer y canllawiau."

Dylai Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn gael lle amlwg yn y canllawiau, a dylid amlinellu darpariaethau CCUHP a hyrwyddir drwy Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn glir.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn na ddylai dysgwyr ifanc gael addysg rhyw yn ifanc iawn, a bod cyflwyno agweddau ar 'rywioldeb' yn rhy ifanc yn debygol o ddrysu plant.

"Dim addysg rhyw cyn 12 oed, gadewch i blant fod yn blant a phenderfynu am eu cyfeiriadedd fel oedolion sy'n cydsynio."

Mynegodd nifer o ymatebwyr bryderon fod perthnasoedd wedi'u diffinio'n rhy fras yn y canllawiau, a bod priodas 'yn cael ei hisraddio'.

Awgrymwyd y dylid rhoi mwy o fanylion o ran iechyd rhywiol, a'r teimlad oedd bod hyn yn allweddol i unrhyw broses o ddysgu neu addysgu am rywioldeb a pherthnasoedd.

"Mae'r amlinelliad o berthnasoedd yn ddefnyddiol. Mae angen rhagor o fanylion i ddiffinio addysg rhyw, er enghraifft agweddau megis iechyd rhywiol, cylchoedd oes pobl, y termau cywir ar gyfer genitalia, y gylchred fislifol, atal cenhedlu, condomau, dewisiadau o ran beichiogrwydd, ffrwythlondeb, y glasoed, y mislif, anffurfio organau cenhedlu benywod a phornograffi."

Cwestiwn 2

Mae'r canllawiau hyn wedi'u strwythuro ar sail 'dull ysgol gyfan'. A yw'r canllawiau'n nodi'n glir beth yw 'dull ysgol gyfan'? A yw'r canllawiau hyn yn eich cynorthwyo i gyflawni hynny?

| Ymateb | Rhif |
|--------------------------------|------|
| Ydyn | 41 |
| Nac ydyn | 33 |
| Ddim yn siŵr | 23 |
| Cyfanswm | 97 |
| <i>Nifer y sylwadau ategol</i> | 53 |

Cytunwyd â'r egwyddor bod y canllawiau wedi'u strwythuro o gwmpas 'dull gweithredu ysgol gyfan'. Roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r dull gweithredu hwn, ac yn cydnabod ei bwysigrwydd i sicrhau addysg cydberthynas a rhywioldeb effeithiol i ddysgwyr.

Argymhellodd nifer o ymatebwyr y dylai'r canllawiau gynnwys mwy o fanylion er mwyn galluogi ysgolion i gyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb effeithiol.

"O ystyried y rôl ganolog y mae dull gweithredu ysgol gyfan yn ei chwarae wrth gefnogi effeithiolrwydd addysg perthnasoedd iach, mae angen i'r canllawiau drafft roi manylion mwy cynhwysfawr am yr hyn y mae disgwyl i ysgolion ei wneud i fodloni'r gofyniad hwn. Mae hyn yn cynnwys rhoi gwybodaeth am sut mae'r elfennau allweddol hyn yn rhyngweithio â'i gilydd yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd. Mae'n bwysig bod y dull gweithredu ysgol gyfan o ymdrin ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb hefyd yn ategu dulliau gweithredu ysgol gyfan eraill."

"Er ein bod yn gwerthfawrogi'r ffaith bod wyth thema graidd UNESCO wedi'u cynnwys, sy'n fan cychwyn ardderchog, mae cynnwys y cwricwlwm yn gwbl absennol. Rydym yn cynnig cynnwys yr hyn y mae UNESCO yn ei ddarparu yn hyn o beth, yn ogystal â'r wybodaeth a ddatblygir gan ysgolion arloesi ac asiantaethau eraill (e.e. consortia canolbarth y de)."

Roedd yr ymatebwyr hefyd yn glir bod yn rhaid cefnogi addysgu, a sicrhau bod hyfforddiant addas i athrawon ar gael er mwyn sicrhau eu parodrwydd i gyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

"Fel yn achos pob pwnc arall, er mwyn i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gael ei haddysgu yn wirioneddol dda, mae angen staff sydd wedi cael hyfforddiant penodol ar y pwnc ac a fydd yn arwain y broses o'i chydlynu ym mhob ysgol."

"Fel yr amlinellwyd yn adran 4 o adroddiad y Panel o Arbenigwyr, mae angen gweithlu hyderus wedi'i hyfforddi'n dda er mwyn sicrhau Addysg Rhyw a Perthnasoedd sy'n llwyddiannus ac o ansawdd uchel. Felly, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â diwygio'r canllawiau hyn, yn amlinellu ei

chynlluniau i roi hyfforddiant Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb arbenigol i athrawon, gan gynnwys o fewn addysg gychwynol athrawon.”

Cwestiwn 3

Dylid darllen y canllawiau drafft ochr yn ochr â'r adran gyfeirio ac atodiadau A, B ac C. A yw'r atodiadau a'r dolenni cyfeirio yn ddefnyddiol ac yn llawn gwybodaeth?

| Ymateb | Rhif |
|--------------------------------|------|
| Ydyn | 44 |
| Nac ydyn | 27 |
| Ddim yn siŵr | 25 |
| Cyfanswm | 96 |
| <i>Nifer y sylwadau ategol</i> | 53 |

Croesawyd y ffaith bod astudiaethau achos wedi eu cynnwys. Fodd bynnag, roedd nifer o ymatebwyr o'r farn bod angen mwy o fanylion ac adnoddau ar ysgolion wrth gynllunio eu haddysgu, ac ystyriwyd bod rhai enghreifftiau'n rhy fras, ac nad oeddent yn addas i bob ysgol.

"Nid oes cysylltiad rhwng yr astudiaethau achos yn Atodiad B â'r dogfennau cynllunio ysgol gyfan, nac unrhyw gynllunio ar gyfer dysgu ac addysgu, nac unrhyw adnoddau. Maent yn ddisgrifiadau byr, bras o arfer a fyddai'n ddefnyddiol iawn ochr yn ochr â'r canllawiau ar gynnwys ond maent yn llai defnyddiol heb hynny."

Roedd yr ymatebwyr yn croesawu'n fras y dolenni cyfeirio sydd ar gael yn y canllawiau. Fodd bynnag, cyflwynwyd nifer o sylwadau a oedd yn tynnu sylw at ddolenni pellach i'w cyflwyno, ac yn gofyn am berthnasedd rhai o'r dolenni presennol a geir yn y canllawiau drafft.

"Gallai'r wybodaeth am gyfeirio fod yn fanylach. Efallai y gallai dylid cysylltu ag wyth maes thematig UNESCO gan y bydd ysgolion yn debygol o seilio eu Haddysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar y rhestr hon o destunau."

Ystyriwyd y dylai atodiadau A, B a C gynnwys mwy o fanylion. Amlinellodd ymatebwyr nifer o feysydd ychwanegol i'w hystyried.

Mae angen mwy o wybodaeth ac ystyriwyd bod angen i adnoddau o safon uchel yn seiliedig ar dystiolaeth fod ar gael er mwyn i athrawon yng Nghymru ddiwallu anghenion y cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

"Dylai fod cysylltiad rhwng y canllawiau ar gynnwys a'r camau datblygiadol ac felly dylai fod canllawiau ychwanegol o ran sut i wahaniaethu dysgu ar gyfer y sawl sydd ag anghenion ychwanegol. Bydd hyn yn rhoi'r cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen ar weithwyr proffesiynol er mwyn datblygu eu cynnwys eu hunain ac arfer sy'n addas i'w lleoliadau."

Cwestiwn 4

Dylid darllen y canllawiau drafft ochr yn ochr â'r adran gyfeirio ac atodiadau A, B ac C. A yw'n glir bod yn rhaid ystyried yr adran gyfeirio a'r atodiadau A, B ac C, ac a yw hynny'n ddefnyddiol ac yn ymarferol?

| Ymateb | Rhif |
|--------------------------------|------|
| Ydy | 36 |
| Nac ydy | 35 |
| Ddim yn siŵr | 19 |
| Cyfanswm | 90 |
| <i>Nifer y sylwadau ategol</i> | 46 |

Dangosodd rhai ymatebwyr eu cefnogaeth i'r adnoddau sydd ar gael i ysgolion yn y canllawiau drafft, er i rai amau addasrwydd rhai o'r cysylltiadau a thynnu sylw at yr angen i hyrwyddo cymorth gwell ynghylch iechyd, lles ac iechyd.

Dyweddodd rhai ymatebwyr y dylid gwella'r fformat, ac nid yw'r canllawiau drafft yn ei gwneud hi'n ddigon eglur y dylid darllen yr atodiadau ochr yn ochr â'r canllawiau.

"..... gallai'r canllawiau hefyd greu cysylltiadau cryfach ag adnoddau Hwb."

Mae angen eglurder hefyd fel rhan o'r canllawiau ar gyfer ysgolion cynradd, a mynegwyd y dylid creu mwy o gysylltiadau â'r cwricwlwm newydd.

"Heb wneud Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn statudol, ni fydd y mwyafrif o ysgolion cynradd yn blaenoriaethu darllen yr holl wybodaeth ychwanegol na datblygu a chyflwyno'r pwnc. Mae angen rhagor o wybodaeth i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn sgil diwygio'r cwricwlwm ac mae'r meysydd dysgu a phrofiad newydd, yn enwedig o ran MDPH Iechyd a Lles."

".....byddai'n ddefnyddiol pe bai cysylltiadau clir yn y Canllawiau â'r cwricwlwm newydd yng Nghymru. Cyfeirir at y Pedwar Diben Craidd a'r Chwe Maes Dysgu a Phrofiad yn y Ddogfen Ymgynghori, ond nid yn y Canllawiau. Byddai staff ysgolion yn croesawu Canllawiau sy'n cael eu hymgorffori'n llawn yng ngweledigaeth a strwythur y cwricwlwm trawsnewidiol sy'n datblygu yng Nghymru."

Cwestiwn 5

A ydych chi'n meddwl bod pob adran o'r canllawiau drafft yn glir ac yn egluro'r hyn sy'n ofynnol gan athrawon ac ysgolion?

| Ymateb | Rhif |
|--------------------------------|------|
| Ydw | 32 |
| Nac ydw | 56 |
| Ddim yn siŵr | 18 |
| Cyfanswm | 106 |
| <i>Nifer y sylwadau ategol</i> | 167 |

Roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r adran hon o'r canllawiau drafft, ond yn teimlo bod y canllawiau'n amwys ac nad oeddent yn esbonio'n glir yr hyn a oedd yn ofynnol. Awgrymwyd y gellid eu cryfhau drwy roi rhagor o gynnwys, deilliannau dysgu a rhagor o adnoddau addysgu.

"Nid yw'r iaith anstatudol (er enghraifft, "anogir ysgolion") a ddefnyddir drwy'r ddogfen ddrafft gyfan yn egluro'r hyn y mae disgwyl i ysgolion ac athrawon ei wneud. Byddai'r canllawiau'n well pe baent yn defnyddio confensiynau ysgrifennu sydd eisoes yn dderbyniol ac yn llunio disgwyliadau drwy ddefnyddio'r termau cydnabyddedig 'rhaid', 'dylai' a 'gall'."

Ystyriwyd bod angen manylion ychwanegol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn sgil diwygio'r cwricwlwm, yn enwedig o ran MDPH Iechyd a Lies.

"Fodd bynnag, mae'n ymddangos y bydd canllawiau technegol UNESCO yn ddefnyddiol i ysgolion i'w helpu i bennu deilliannau dysgu ar gamau allweddol amrywiol a'u cefnogi i fynd i'r afael â dulliau o ymdrin â hawliau a chydraddoldeb rhywiol a'u hintegreiddio yn y cwricwlwm ond eto mae'n ymddangos nad yw'n darparu cynlluniau gwersi nac adnoddau addysgu gwirioneddol i'w defnyddio er mwyn gallu cyflawni'r deilliannau dysgu hyn."

Mynegwyd pryderon hefyd nad oes unrhyw wybodaeth am yr hyn y dylid, na hyd yn oed y gellid, ei addysgu ym mhob cyfnod allweddol a bod diffyg eglurder o ran yr hyn sy'n briodol o safbwynt datblygiadol i grwpiau oedran gwahanol.

"O ganlyniad i hyn, mae'n destun pryder difrifol inni nad yw'r canllawiau'n gwarantu y bydd ysgolion yn addysgu rhaglen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n gynhwysfawr ac yn gadarn. Nid yw'r canllawiau'n egluro i ysgolion beth yr argymhellir y dylid ei addysgu na phryd ychwaith."

Cwestiwn 6

Gan feddwl am bob un o'r adrannau, a ydych chi'n credu bod unrhyw fylchau yn y wybodaeth? Os felly, beth ydych chi'n ei gredu fyddai'n ddefnyddiol ei ychwanegu ar gyfer darparu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb? A oes unrhyw rannau sy'n arbennig o ddefnyddiol?

| Cwestiwn agored | |
|--|-----|
| Y nifer a gyflwynodd sylwadau ychwanegol | 183 |

Roedd yr ymatebwyr yn croesawu pob adran yn y canllawiau'n fras, ond ystyriwyd bod diffyg gwybodaeth benodol am gynnwys priodol.

Mewn nifer o achosion, roedd yr ymatebwyr o'r farn y dylid cynnwys diffiniad clir o'r termau sy'n allweddol i'r broses o addysgu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y canllawiau.

Ystyriwyd y dylid cryfhau'r canllawiau i lywio gwaith cynllunio athrawon drwy gynnwys adran benodol ar adnoddau, yn hytrach nag adran atgyfeirio a chyfeirio.

Nododd rhai ymatebwyr nad yw'r canllawiau'n egluro sut y dylid cyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn ffordd ddatblygiadol briodol, ac y dylid rhoi ystyriaeth benodol i gefnogi gweithwyr proffesiynol i gyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i blant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

".....Bydd eglurder ar sut y dylid cyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn allweddol er mwyn cynnwys plant a phobl ifanc a lleihau unrhyw niwed neu drawma posibl. Bydd hefyd yn allweddol er mwyn sicrhau cefnogaeth rhieni, llywodraethwyr a chymunedau."

Ystyriwyd bod angen eglurhad pellach ar gyfer ysgolion ffydd yn enwedig ac y dylid cryfhau'r adrannau i gefnogi ymarferwyr a dysgwyr.

Croesawyd y ffaith bod astudiaethau achos wedi'u cynnwys, ac argymhellir ystyriaeth bellach er mwyn nodi a rhannu arfer gorau ac adnoddau.

Cwestiwn 7

A ydych chi'n cytuno â'r dull a amlinellir yn yr adran 'ymgysylltu â rhieni/gofalwyr/y gymuned' sy'n nodi sut y dylai ysgolion gynllunio a datblygu eu polisiau sy'n ymwneud ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb?

| Ymateb | Canran (rhif) |
|--------------------------------|---------------|
| Ydw | 35 |
| Nac ydw | 32 |
| Ddim yn siŵr | 27 |
| Cyfanswm | 94 |
| <i>Nifer y sylwadau ategol</i> | 64 |

Cytunodd nifer o ymatebwyr fod ymgysylltu â rhieni, gofalwyr a'r gymuned yn bwysig, ac roedd hyn yn rhoi'r cyfle i rieni/gwarcheidwaid ymgysylltu â'r cwricwlwm.

Nododd rhai ymatebwyr nad oeddent yn gallu dod o hyd i adran o'r enw 'ymgysylltu â rhieni/gofalwyr/y gymuned' yn y canllawiau drafft, ond roeddent yn croesawu'r pwyslais ar ymgysylltu â rhieni.

Argymhellir y dylai'r canllawiau drafft gynnwys 'adran annibynnol' ar ymgysylltu â 'rhieni/gofalwyr/y gymuned' yn benodol. Argymhellwyd y dylai'r canllawiau gynnwys manylion am sut y gall athrawon ac ysgolion sicrhau yr ymgysylltir yn effeithiol â rhieni a'r gymuned'

"Er mwyn sicrhau dull gweithredu ysgol gyfan sy'n gynhwysol, mae'n bwysig ymgynghori â rhieni a gofalwyr ar ddatblygu polisiau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a'u cyflwyno mewn ysgolion. Gall gwaith ymgysylltu effeithiol arwain at well dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r ffordd orau o gyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn ysgolion – mae'n annog deialog ac yn sicrhau perchnogaeth o'r polisiau y cytunwyd arnynt."

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at 'Hawl Rhieni i Dynnu'n ôl' yn yr adran hon. Roedd rhai o'r farn y dylid cadw Hawl Rhieni i Dynnu'n ôl ac roedd eraill o'r farn y dylid cael gwared arni.

Cwestiwn 8

A ydych chi'n teimlo bod y canllawiau yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi i allu ymgysylltu'n ystyrion â'ch dysgwyr er mwyn cynllunio eich darpariaeth ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb?

| Ymateb | Rhif |
|--------------------------------|------|
| Ydyn | 28 |
| Nac ydyn | 38 |
| Ddim yn siŵr | 16 |
| Cyfanswm | 82 |
| <i>Nifer y sylwadau ategol</i> | 45 |

Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn nad yw'r canllawiau'n amlinellu beth yn union y dylid ei addysgu drwy Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a bod angen rhagor o fanylion.

"Ar hyn o bryd, nid yw'r canllawiau'n egluro sut i ymgysylltu a chyd-gynhyrchu'r cwricwlwm â phlant a phobl ifanc er mwyn sicrhau ei fod yn seiliedig ar anghenion a phrofiad (nid yw hyn o reidrwydd yr un peth â bod yn briodol o safbwynt datblygiadol). Er enghraifft, mae angen canllawiau cliriach efallai yn yr enghreifftiau/astudiaethau achos er mwyn dangos yn glir sut y gall athrawon weithio gyda'r wybodaeth bresennol (e.e. data o arolwg y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion) a dulliau gweithredu ansoddol creadigol o ddarparu amgylcheddau diogel i wrando ar blant a phobl ifanc a dysgu oddi wrthynt."

Nododd rhai ymatebwyr hefyd yn yr adran hon mai yn yr ysgol uwchradd y dylid darparu addysg o'r fath ond nid cyn hynny.

Ystyriwyd y byddai'r canllawiau'n elwa ar gael cyngor ymarferol ar sut i ymgysylltu â disgyblion er mwyn deall eu profiadau'n well a llywio'r broses o gynllunio datblygiad Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

"Mae Estyn yn croesawu'r canllawiau drafft sy'n cyfeirio at ganllawiau technegol UNESCO ar gyfer addysg rhywioldeb a'u his-benawdau. Mae'r rhain yn fan cychwyn da sy'n cefnogi athrawon i lunio cynnig dysgu lleol yn unol ag egwyddor sybsidiaredd. Fodd bynnag, mae angen rhagor o fanylion ac mae'n bwysig bod y canllawiau'n rhoi sicrwydd y bydd y ffordd y cyflwynir Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn lleol yn gyson â fframwaith cenedlaethol. Er bod Estyn yn cydnabod bod y gwaith i ddatblygu'r cwricwlwm newydd wedi hen ddechrau, byddai'r canllawiau drafft yn elwa ar wneud cysylltiadau priodol â'r ffordd y mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn helpu i ategu pedwar diben y cwricwlwm newydd a dylent lywio'r ffordd y cyflwynir y chwe Maes Dysgu a Phrofiad yn lleol."

Cwestiwn 9

Pa fath o hyfforddiant, cymorth neu adnoddau yr hoffech chi eu gweld i helpu i sicrhau bod y canllawiau'n cael eu gweithredu'n llwyddiannus?

Sylwadau ategol

| Cwestiwn agored | |
|--|-----|
| Y nifer a gyflwynodd sylwadau ychwanegol | 177 |

Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn bod angen rhagor o gyfleoedd hyfforddi ar gyfer athrawon ac ystyriwyd y dylent feddu ar yr arbenigedd a'r wybodaeth i gyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

"Mae angen datblygu'r canllawiau hyn yn sylweddol er mwyn cynnwys manylder clir a phenodol y gall athrawon gynllunio cynnwys yn ei erbyn gyda'r hyder bod ganddynt gefnogaeth arbenigedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth, eu hysgol a'u llywodraeth leol a chenedlaethol. Rwy'n awgrymu y dylid datblygu hyn gydag arbenigedd allanol, gweithwyr addysgu proffesiynol a phobl ifanc, ac y dylai sicrhau y caiff anghenion pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol eu cynrychioli."

Nodwyd bod adnoddau sy'n berthnasol i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn amrywio, a bod angen ystyried sut y gellir rhaedru adnoddau a chymorth gan asiantaethau i ysgolion. Awgrymwyd y byddai HWB yn adnodd defnyddiol er mwyn rhannu arfer gorau ac adnoddau. Awgrymwyd hefyd y byddai llwybr rhaglenni penodedig i athrawon ei ddefnyddio o fudd i ymarferwyr.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai cynlluniau gwersi i oedrannau gwahanol yn cael eu croesawu er mwyn sicrhau cyflwynir y cwricwlwm yn gyson.

Dywedodd nifer o ymatebwyr y dylai Llywodraeth Cymru ailystyried yr argymhellion ar hyfforddiant, cymorth ac adnoddau, gan y panel o arbenigwyr ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd.

"- Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu llwybr datblygiad proffesiynol ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, yn benodol ar gyfer pob cam o addysg, i'w gynnwys mewn addysg gychwynol athrawon a chysiau dysgu proffesiynol. Byddai'r llwybr hwn yn rhoi cyfle iddynt wella eu datblygiad proffesiynol ac arbenigo mewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, gan roi cyfle i'r gweithlu gael cymhwyster lefel Meistr mewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb."

"- Dylai pob ysgol gael arweinydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb arbenigol hyfforddedig gyda'r gallu i gael gafaél ar adnoddau a chanllawiau i gydlynu cwricwlwm sy'n seiliedig ar hawliau a thegwch rhwng y rhywiau. Dylid neilltuo yr un faint o oriau i'w gyflwyno ym mhob cyfnod allweddol â phynciau eraill y cwricwlwm."

Dylai'r rôl hon gynnwys ymgorffori Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn dull gweithredu ysgol gyfan."

Cwestiwn 10

Os nad ydych chi'n arbenigwr sy'n darparu Addysg Rhyw a Chyberthynas/Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn eich ysgol, a yw'r canllawiau hyn yn ddigonol i'ch helpu i gynllunio'r maes a'i gyflwyno i'ch dysgwyr?

| Ymateb | Rhif |
|--------------------------------|------|
| Ydyn | 13 |
| Nac ydyn | 39 |
| Ddim yn siŵr | 19 |
| Cyfanswm | 71 |
| <i>Nifer y sylwadau ategol</i> | 32 |

Mewn rhai achosion, roedd yr ymatebwyr o'r farn bod diffyg fframwaith yn nodi'r cynnwys yn y pwnc, a bod angen mwy o eglurder.

"Rydym yn gwerthfawrogi nad yw'r cwricwlwm newydd wedi'i gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad, ond byddai'n ddefnyddiol pe bai cyfeirio cliriach rhwng y ddogfen hon a datganiadau Yr Hyn sy'n Bwysig perthnasol y Meysydd Dysgu a Phrofiad, yn enwedig MDPH Iechyd a Lles."

Ystyriwyd y dylid cryfhau'r canllawiau er mwyn i ysgolion helpu athrawon i gynllunio a chyflwyno i'w dysgwyr.

"Mae angen rhagor o ganllawiau ar gyfer ysgolion cynradd. Mae angen rhoi mwy o bwyslais ar atebolrwydd yr ysgol wrth gyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb."

"Nid yw Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau yn credu bod canllawiau digonol er mwyn i'r sawl nad ydynt yn arbenigwyr gynllunio a chyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn ysgolion. Mae'r Undeb yn ailadrodd y gall fod canllawiau mwy defnyddiol yn y MDPH sydd heb ei gyhoeddi eto. Felly, mae Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau yn credu bod yr ymgynghoriad ar y canllawiau drafft newydd yn gynamserol ac y dylai manylion llawn y cwricwlwm newydd fod yn hysbys cyn rhoi'r newid hwn ar waith."

Cwestiwn 11

Hoffem wybod eich safbwyntiau ar yr effeithiau y byddai'r canllawiau diwygiedig ar gydberthynas a rhywioldeb yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol o ran: i) y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

| Cwestiwn agored | |
|--|----|
| Y nifer a gyflwynodd sylwadau ychwanegol | 44 |

Dywedodd nifer o ymatebwyr nad ydynt yn rhagweld y byddai'r canllawiau diweddaraf ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg.

"Rwyf o'r farn y bydd cyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o fudd i'r Gymraeg. Byddai'n rhoi cyfleoedd i'r plant ystyried sut mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wedi datblygu yng Nghymru o gymharu â gweddill y DU a'r byd."

Dywedodd nifer o ymatebwyr fod angen adnoddau Cymraeg ychwanegol o safon er mwyn cyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn effeithiol.

"Mae'n hanfodol bod dogfen y canllawiau ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a'r holl ddeunyddiau ategol ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar gael yn ddwyieithog fel y gall pob ysgol ac unigolyn gael gafael ar wybodaeth yn eu dewis iaith."

Tynnodd yr ymatebwyr sylw hefyd at bwysigrwydd sicrhau bod adnoddau, a hyfforddiant, ar gael yn ddwyieithog er mwyn cefnogi dysgu yn briodol, ac y dylai fod gan asiantaethau aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg er mwyn cyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

"Nid oes disgwyl i weledigaeth newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gael effaith gadarnhaol na negyddol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae angen rhagor o ystyriaeth er mwyn sicrhau na chaiff y ddarpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb cyfrwng Cymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg."

Cwestiwn 12

Eglurwch hefyd sut gellid ail-lunio neu newid y canllawiau arfaethedig ar gydberthynas a rhywioldeb: i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

| Cwestiwn agored | |
|--|----|
| Y nifer a gyflwynodd sylwadau ychwanegol | 34 |

Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn y bydd argaeledd adnoddau a hyfforddiant Cymraeg yn cefnogi dysgu.

"Ar yr amod bod yr adnoddau a'r hyfforddiant ar gael yn ddwyieithog, dylent gefnogi dysgu yn ddigonol ac yn briodol."

Crybwyllwyd terminoleg fel mater pwysig, ac awgrymwyd y byddai'r defnydd o 'dermau hawdd eu deall' yn y canllawiau drafft yn cael ei groesawu.

"Mae terminoleg yn bwysig o ran Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb; mae'n hanfodol bod y defnydd o'r Gymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar fynegi cydberthnasau iach, rhywioldeb a hunaniaeth o ran rhywedd. Drwy roi'r cyfle i bobl ifanc drafod a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, bydd pobl ifanc yn cael y cyfle i ddatblygu'r defnydd o dermau cadarnhaol ar draws gwahanol ieithoedd."

Cwestiwn 13

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

| Cwestiwn agored | |
|--|-----|
| Y nifer a gyflwynodd sylwadau ychwanegol | 173 |

Dyweddodd nifer o ymatebwyr fod y cyfeiriad at yr hawl i dynnu'n ôl wedi'i hepgor o'r ymgynghoriad. Roedd nifer o ymatebwyr am i rieni gadw'r hawl i dynnu plant yn ôl o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb:

“Nid ydych wedi crybwyll parchu hawl rhieni i dynnu'n ôl na dymuniadau rhieni ynghylch yr hyn y dylid ei addysgu i blant.”

“Rydym yn ailddatgan ein cefnogaeth gref i gadw hawl rhieni i dynnu eu plant yn ôl o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb”

“Rhieni yw prif addysgwyr eu plant ar y materion hyn ac yn y pen draw sy'n cael penderfynu sut dylid addysgu'r pynciau hyn i'w plant.”

Dyweddodd rhai ymatebwyr y dylid ystyried trefniadau'r dyfodol o ran yr hawl i dynnu'n ôl:

“Rwy'n anfodlon ar gadw hawl rhieni i dynnu person ifanc yn ôl o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb y tu hwnt i 16 oed, sef yr oedran pan ddylai gweithwyr proffesiynol ystyried barn y person ifanc ei hun.”

Cododd yr ymatebwyr nifer o faterion yn ymwneud â'r cynnwys a'r themâu a restrir yn y canllawiau drafft a'u priodoldeb i blant ifanc yn benodol. Ystyriwyd y dylid adolygu'r rhain.

Roedd nifer o ymatebwyr yn cefnogi datblygiad cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

“Rwy'n deall bod Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar gynnig i wneud Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn orfodol i bob disgybl dan 16 oed. Rwy'n cefnogi'r cynllun hwn yn gryf am fod yr holl dystiolaeth yn dangos bod disgyblion sy'n cael gwersi cynhwysfawr, ffeithiol gywir o safon uchel ar y materion hyn yn y sefyllfa orau i fod yn iach, yn fodlon ac yn ddiogel wrth iddynt dyfu i fyny.”

“Gall addysg ar gydberthnasau a rhywioldeb roi'r sgiliau i blant a phobl ifanc ddehongli negeseuon sy'n gwrthdaro'n aml ynghylch testunau cymhleth, a dylai wneud hynny. Dylai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb hefyd sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ymwybodol o ble a sut gallant gael gfael ar gymorth a chefnogaeth.”

Fel rhan o'r broses o gyflwyno'r elfen hon o'r cwricwlwm, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gennym y staff a'r gweithwyr proffesiynol, megis nyrsys ysgol, i roi'r ddamcaniaeth gadarnhaol hon ar waith."

"Fodd bynnag, mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb orfodol ond yn fan cychwyn a dylai'r broses o sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n gynhwysol, yn gyfannol ac yn seiliedig ar degwch gyd-fynd â datblygu canllawiau statudol cynhwysfawr sy'n nodi cwricwlwm craidd. Mae gan bob plentyn a pherson ifanc hawl i gael y cwricwlwm craidd hwn. Yn wir, dylai'r cwricwlwm craidd ddilyn model y 'dull gweithredu ysgol gyfan', yn ogystal â datblygu a chyflwyno hyfforddiant proffesiynol er mwyn sicrhau bod ysgolion yn gallu cyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o safon uchel."

Ystyriwyd bod angen rhagor o fanylion yn y canllawiau drafft er mwyn i ysgolion anghenion arbennig gryfhau'r cymorth i ymarferwyr a dysgwyr.

"Byddem yn croesawu eglurder ynghylch y gofynion ar ysgolion anghenion arbennig ac ysgolion preifat ac annibynnol yng Nghymru i gyflwyno'r elfen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb newydd o'r cwricwlwm, ac a fydd unrhyw ofynion statudol arnynt i sicrhau bod y pwnc allweddol hwn yn cael ei addysgu." "

5. Atodiad – Rhestr o'r ymatebwyr

1. Secularism UK
2. Adran Addysg Abertawe
3. Iechyd Cyhoeddus Cymru
4. Dyneiddwyr y DU
5. Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
6. Cynghrair y Cyfnod Sylfaen
7. Prifysgol Caerdydd
8. Estyn
9. Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
10. Ysgolion Iach ALI Caerffili
11. Cymdeithas Addysgol Sosialaidd Cymru
12. Prifysgol Caerdydd
13. Ysgol Uwchradd Whitmore
14. Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig
15. Prifysgol Birmingham
16. Christian Concern
17. Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (Cymru)
18. Fair Treatment for the Women of Wales
19. NSPCC Cymru
20. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
21. Mencap Cymru
22. Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Gwent
23. Ymddiriedolaeth Terrence Higgins
24. Barnardo's Cymru
25. NEU Cymru
26. Comisiynydd Plant Cymru
27. Christian Action Research & Education (CARE)
28. Plant yng Nghymru
29. Stonewall Cymru
30. Cynghrair End Violence Against Women
31. Seicolegydd Addysg
32. Yr Ymddiriedolaeth AIDS Genedlaethol
33. Y Gymdeithas Secwlaidd Genedlaethol
34. Ysgol David Hughes
35. Info-Nation (Gwasanaethau Pobl Ifanc Cyngor Abertawe)
36. Ymgynghorydd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
37. Ysgol Gynradd Moorland
38. Plan International UK
39. Y Sefydliad Cristnogol
40. Y Cynghrair Efengylaidd
41. Fforwm Addysg Rhyw